# NODIADAU CYFARWYDDYD

## Llenwi Ffurflen Gais (Cymru) y Cynllun Labelu Cig Eidion

---

**Cwestiwn 1**

Nodwch fanylion cyswllt y busnes neu'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais. Cofiwch nodi cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth os yw'n wahanol i'ch cyfeiriad busnes.

**Cwestiwn 2**

**(a)** Ticiwch y bocs(ys) priodol sy'n berthnasol i'ch busnes.

**(b)** Nodwch enwau a chyfeiriadau pob eiddo lle mae eich busnes yn gwerthu cig eidion sydd â'r honiadau ar y label a nodir yn eich cais. Os yw pob eiddo yn masnachu o dan yr un enw, nodwch nifer y canghennau ym mhob un o wledydd y DU. Os yw'r cais yn berthnasol i un eiddo yn unig a bod y cyfeiriad yr un fath ag yng Nghwestiwn 3, nodwch "fel uchod".

**(c)** Os yw'r cig eidion rydych yn ei gyflenwi yn cael ei werthu gan fusnesau eraill, rhestrwch enwau a chyfeiriadau'r busnesau hyn. Cofiwch fod yn rhaid i labeli'r cig eidion a gyflenwir gennych ac a werthir yn y busnesau a restrwch gael eu dilysu gan gorff annibynnol (gweler Cwestiwn 8), a chi fydd yn gyfrifol am dalu'r costau.

**Cwestiwn 3**

Nodwch yr union eiriau rydych am eu defnyddio ar eich labeli. *Mae'n rhaid i chi anfon copïau atom o'r wybodaeth labelu sy'n berthnasol i'r cais hwn.* Dylai hyn gynnwys unrhyw hysbysebion ar wefannau a chyfeiriadau'r gwefannau hynny. Cofiwch fod labelu'n cynnwys gwybodaeth ar docynnau, derbynebau, byrddau gwyn, arwyddion, gwefannau a hysbysebion a thaflenni sy'n gysylltiedig â'r cig eidion.

**Cwestiwn 4**

Esboniwch y system olrhain anifeiliaid rydych yn ei defnyddio i warantu cywirdeb yr honiadau ar eich labeli sy'n berthnasol i'r cais hwn. Disgrifiwch eich system reoli a ddefnyddir ym mhob cyfnod cynhyrchu a gwerthu (o olrhain yr anifeiliaid, eu lladd, torri/tynnu'r esgyrn a'u pecynnu, i'r lefel manwerthu, fel sy'n berthnasol) h.y. rhaid i chi fod â system reoli ar waith sy'n eich galluogi i olrhain y cig eidion rydych yn ei werthu neu ei gyflenwi yn ôl i'r anifail neu'r grŵp o anifeiliaid gwreiddiol. Yn dibynnu ar eich math o fusnes, gallai'r system reoli sy'n cefnogi'r honiadau ar eich labeli gynnwys defnyddio tagiau clust a phasbortau gwartheg, cofnodion lladd-dai, dogfennau gan eich cyflenwr(wyr), system olrhain gyfrifiadurol a chofnodion yn eich busnes.

**Cwestiwn 5**

Nodwch pa gamau y byddwch yn eu cymryd os bydd eich cyflenwr(wyr) yn torri rheolau'r Cynllun.

**Cwestiwn 6**

Nodwch enw eich dilyswr cymeradwy o'r rhestr a ddarperir. Mae Rheoliadau'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflogi corff annibynnol i ddilysu'r honiadau rydych yn eu gwneud. Bydd rhaid i chi sicrhau nad oes gan y dilyswr fuddiannau sy'n gwrthdaro ag unrhyw ran o gadwyn cynhyrchu a marchnata'r cig eidion rydych yn ei werthu. Er mwyn cael y pris mwyaf cystadleuol, fe'ch cynghorir i gael dyfynbrisiau gan nifer o ddilyswyr cyn dewis un. Wrth ymgynghori ag unrhyw un o'r cyrff dilysu, dylech ofyn sut y mae'n bwriadu dilysu eich honiad(au).

**Cwestiwn 7**

Bydd angen i'ch dilyswr archwilio eich system reoli a phwyso a mesur a yw'r honiadau ar eich labeli yn gywir. Defnyddir eich cofnodion i wneud hyn. Esboniwch yn gryno sut y bydd eich dilyswr yn sicrhau bod eich honiadau yn gywir a disgrifiwch y mesurau a ddefnyddir gan y dilyswr. *Cyn ateb y Cwestiwn hwn, bydd angen i chi gysylltu â'r dilyswr i ofyn am ddisgrifiad o'i fesurau*.

**Cwestiynau 8-10**

Os ydych yn mewnforio (neu'n allforio) cig eidion ac yn defnyddio'r labeli a restrir yng Nghwestiwn 5, bydd angen i chi sicrhau eich bod chi neu un o'ch cyflenwyr wedi cael cymeradwyaeth gan bob un o'r gwledydd sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi o'r fferm gychwynnol i'r manwerthwr terfynol. Mae'n bosibl y bydd eich cyflenwyr eisoes wedi cyflwyno cais a chael cymeradwyaeth am yr honiadau rydych yn bwriadu eu gwneud, gan wybod y bydd y cig eidion yn cael ei allforio i'r DU. Fodd bynnag, os na fyddwch wedi cael cymeradwyaeth gan y wlad neu'r gwledydd lle bydd yr anifeiliaid yn cael eu lladd a'r cig eidion yn cael ei gynhyrchu, bydd angen i chi wneud hynny cyn y gall Llywodraeth gymeradwyo eich cais. Gall Llywodraeth ddarparu rhestr o awdurdodau cymwys yn yr Aelod-Wladwriaethau eraill yn yr UE. Dylai eich cyflenwyr allu eich rhoi mewn cysylltiad ag awdurdodau mewn gwledydd y tu allan i'r UE. Os ydych yn cyflwyno cais mewn perthynas â chig eidion sydd wedi'i fewnforio o'r tu allan i'r UE, bydd angen i'r awdurdod cymwys yn y wlad sy'n allforio (ac unrhyw wlad arall sy'n rhan o'r gadwyn cynyrchu a marchnata) hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd cyn y gall Llywodraeth ystyried eich cais.